

Gweithio gyda PCGC: Cyflwyniad i Byrth Caffael PCGC

Mae PCGC yn cynnal gweithgarwch caffael mewn partneriaeth gymdeithasol â'r holl Fyrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig GIG Cymru a restrir isod (yn ogystal â'u sefydliadau olynol):

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC)
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru

Mae PCGC yn defnyddio amrywiaeth o blatfformau i gynnal ei weithgarwch caffael. Mae'r llwybr i'r farchnad a ddefnyddir gan PCGC yn dibynnu ar y nwyddau, gwasanaethau neu waith unigol sy'n cael eu caffael, y fframweithiau neu'r cytundebau allanol presennol sydd ar gael y gall Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau eu defnyddio, a gwerth y gwasanaethau, nwyddau neu'r gwaith sy'n cael eu caffael. Mae'r tabl isod yn mynegi'r gwahanol blatfformau a ddefnyddir yn erbyn gwahanol werthoedd gwariant:

Nwyddau/Gwasanaethau /Gwaith Cost Oes Gyfan Gwerth y contract (heb gynnwys TAW)	Cystadleuaeth leiaf (Yn amodol ar fodolaeth cyflenwyr addas)	Llwybr i'r Farchnad
Llai na £5,000	Tystiolaeth o werth am arian	Dyfyniadau uniongyrchol
£5,000 - £25,000	Tystiolaeth o 3 dyfynbris	Cynhelir y gystadleuaeth trwy MultiQuote
£25,001 – Trothwy Cyfredol Canfod Tendr	Galwad am gystadleuaeth wedi'i hysbysebu	Wedi'i hysbysebu trwy GwerthwchiGymru Cystadleuaeth yn cael ei chynnal drwy E-Dendro Cymru
Uwchlaw Trothwy Canfod Tendr	Galwad am gystadleuaeth wedi'i hysbysebu	Wedi'i hysbysebu trwy GwerthwchiGymru Cystadleuaeth yn cael ei chynnal drwy E-Dendro Cymru

NODER: Sylwch y gall PCGC hefyd ddefnyddio fframweithiau neu gytundebau allanol, y mae Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau wedi'u henwi arnynt, ar bob un o'r trothwyon gwerth uchod y cyfeirir atynt uchod. Gall darparwyr fframwaith allanol ddefnyddio platfformau amgen i gynnal eu gweithgaredd caffael fframwaith.

Byddai PCGC yn annog cynigwyr i gofrestru ar y platfformau isod i gael mynediad at brosesau tendro cystadleuol penodol GIG Cymru:

Platform:	Dolen:	Cyswllt:
-----------	--------	----------

MultiQuote	Mewngofnodi i MultiQuote	support@elcom.com
GwerthwchiGymru	Sign On Cymru - GwerthwchiGymru (llyw.cymru)	Cysylltwch â ni - GwerthwchiGymru (llyw.cymru)
E-Dendro Cymru	Data Cofrestru (Porth eDendro etenderwales) (bravosolution.co.uk)	Cyflwyno Tocyn Cymorth Cyflenwr Am Ragor o Gymorth (Saesneg yn unig) JAGGAER